## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

### *Gofyn i'r Prif Weinidog*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): Pryd oedd y tro diwethaf i'r Prif Weinidog drafod dyfodol ariannu'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru gyda Llywodraeth y DU a beth oedd y canlyniad. (WAQ43548)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): Pryd oedd y tro diwethaf i'r Prif Weinidog drafod dyfodol ariannu'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a beth oedd y canlyniad. (WAQ43549)

### *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei drafodaethau diweddaraf gyda thîm cynnig Llundain ar gyfer Gemau Olympaidd 2012. (WAQ43537)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad a wnaed o'r buddiannau economaidd i Gymru yn sgîl cynnig llwyddiannus gan Lundain ar gyfer Gemau Olympaidd 2012. (WAQ43538)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi ei drafodaethau diweddaraf ag Undeb Rygbi Cymru a rheolwyr Stadiwm y Mileniwm o ran effaith gemau pêl-droed terfynol yn dychwelyd i Stadiwm Wembley y flwyddyn nesaf. (WAQ43539)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i Gymdeithas Pêl-droed Cymru ac UEFA mewn perthynas â chynnal gêm derfynol y Champions' League yn Stadiwm y Mileniwm. (WAQ43540)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad criced mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ43541)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddathliadau yng Nghymru i nodi 20 mlynedd ers Brwydr Trafalgar. (WAQ43542)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog

wedi’u cael gyda Chyngor Sir Caerdydd o ran stadiwm pêl-droed newydd arfaethedig Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. (WAQ43543)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y caiff presenoldeb Llywdoraeth Cynulliad Cymru ar y Rhyngrwyd ei ailddatblygu a faint yw’r amcangyfrif o’r gost. (WAQ43532)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ymatebion i’r cais am adborth ar bresenoldeb Llywodraeth y Cynulliad ar y Rhyngrwyd. (WAQ43533)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion diweddaraf y cynigion – yn cynnwys y dyddiadau dechrau a gorffen a ragwelir – i ledu trafforth yr M4 i’r gogledd o Gaerdydd. (WAQ43544)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): Pa asesiad a wnaed o nifer y teithwyr a fyddai’n defnyddio’r cyswllt awyr arfaethedig rhwng y gogledd a’r de. (WAQ43545)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw welliannau a gynlluniwyd i’r seilwaith drafnidiaeth yng Nghasnewydd a’r cyffiniau i baratoi ar gyfer twrnament Cwpan Ryder yn 2010. (WAQ43546)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith economaidd siopau coffi masnachfraint mawr ar y stryd fawr yng Nghymru. (WAQ43547)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Masnach Cymru Rhyngwladol. (WAQ43578)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ddadansoddiad annibynnol a wnaed o fuddiannau cost Masnach Cymru Rhyngwladol. (WAQ43579)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae’r gweinidog yn asesu llwyddiant Masnach Cymru Rhyngwladol. (WAQ43580)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa archwiliadau a wneir o ran y canlyniadau data a gyflwynwyd gan Fasnach Cymru Rhyngwladol yn dilyn teithiau masnach. (WAQ43581)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y gweinidog restru’r holl deithiau masnach sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y 12 mis nesaf. (WAQ43582)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y gweinidog restru’r gweithgareddau penodol

y byddai Masnach Cymru Rhyngwladol yn eu cynnal ar daith fasnach arferol. (WAQ43616)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr achosion o danau bwriadol mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer bob blwyddyn o 2000-2004 yn gynwysedig. (WAQ43558)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ysgolion a gwasanaethau Addysg Anghenion Arbennig yng Nghymru. (WAQ43562)

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol addysg gymunedol i oedolion yng Nghymru. (WAQ43563)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion Cynradd yng Nghymru. (WAQ43564)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gweithgareddau a gynigir i blant cyn ac ar ôl ysgol. (WAQ43565)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei pholisi ar ffioedd atodol yng Nghymru. (WAQ43566)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu'r cysyniad o Ysgolion Estynedig yng Nghymru. (WAQ43567)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nifer a fanteisiodd ar y grant gwisg ysgol a lansiwyd ar 22 Mehefin 2005. (WAQ43568)

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i fyfyrwyr mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ43569)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Pa gamau a gaiff eu cymryd yn y system addysg yng Nghymru i fynd i'r afael â'r prinder gweithwyr crefftau medrus er mwyn cadw adeiladau hanesyddol, fel gweithwyr brics arbenigol, seiri, gweithwyr llechi, seiri maen a thöwyr. (WAQ43583)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ar raglenni peilot Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. (WAQ43613)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Pa ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni peilot Ieithoedd Tramor Modern. (WAQ43614)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno addysgu ieithoedd tramor modern ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru, fel y cyhoeddwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau mewn perthynas ag ysgolion cynradd yn Lloegr. (WAQ43615)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arfer o dreillio mewn parau am ddraenogiad y môr ac effaith hyn ar nifer y dolffiniaid. (WAQ43534)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda llywodraeth y DU o ran treillio mewn parau am ddraenogiad y môr ac effaith hyn ar nifer y dolffiniaid. (WAQ43535)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn gan grwpiau amgylcheddol fel Greenpeace o ran yr arfer o dreillio mewn parau ac effaith hyn ar nifer y dolffiniaid. (WAQ43536)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa ganllawiau sy'n bodoli mewn perthynas â phenderfuar alw ceisiadau cynllunio i mewn gan y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ43561)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith debygol y Ddeddf Forol a gynigiwyd yn araith y Frenhines. (WAQ43584)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch y Ddeddf Forol arfaethedig a grybwyllwyd yn araith y Frenhines. (WAQ43585)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywdoraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): Faint yw'r gost ariannol i'r Cynulliad o ddarparu diogelwch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, o ystyried ei rôl fel Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon. (WAQ43550)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): Faint yw'r bil treth terfynol a amcangyfrifir ar gyfer adleilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ43551)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ43570)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ43571)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ43572)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag awdurdodau lleol o ran lefeleu treth gyngor. (WAQ43573)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidig ddatganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau llywodraeth leol i'r rhai dros 65 oed. (WAQ43574)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd yn cynnig mesurau i orfodi'r canllawiau sy'n nodi y dylai cynghorwyr y gwrthbleidiau gadeirio pwyllgorau craffu llywodraeth leol. (WAQ43575)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl awdurdodau lleol yn 'Cyflawni'r Cysylltiadau – Cynllun Gweithredu' yng Nghymru. (WAQ43576)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu pensiynau llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ43611)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynorthwyo Alun a Glannau Dyfrdwy i wella'r gwasanaethau lleol y mae'n eu darparu ers 2003. (WAQ43612)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ymhellach i ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar 17eg Mawrth 2005 ar Dargedau Amseroedd Aros Iechyd a Buddsoddiad Cyfalaf, pa ysbytai yng Nghymru fydd yn derbyn y £21 miliwn a glustnodwyd ar gyfer "sganwyr MRI ac offer arall". (WAQ43530)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ymhellach i ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar 17eg Mawrth 2005 ar Dargedau Amseroedd Aros Iechyd a Buddsoddiad Cyfalaf, a fydd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg yn derbyn cyfran o'r £21 miliwn a glustnodwyd ar gyfer "sganwyr MRI ac offer arall" at ddibenion prynu sganiwr MRI ar gyfer Ysbyty Tywysog Siarl. (WAQ43531)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi nifer y nyrsys sydd wedi ymddeol neu ymddiswyddo o swyddi mewn ysbytai neu bractisau meddygon teulu yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2000-2004 yn gynwysedig. (WAQ43554)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi nifer y nyrsys a fydd yn ymddeol o swyddi mewn ysbytai neu bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn ystod 2005. (WAQ43555)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi nifer y nyrsys a gwblhaodd eu hyfforddiant ac a gafodd eu recriwtio mewn ysbytai neu bractisau meddygon teulu yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2000-2004 yn gynwysedig. (WAQ43556)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi nifer y nyrsys a gyflogir mewn ysbytai a phractisau meddygon teulu yng Nghymru ar gyfer yr oedrannau canlynol: o dan 20 mlwydd oed; 20-30 mlwydd oed; 30-40 mlwydd oed; 40-50 mlwydd oed; 50-55 mlwydd oed; a thros 50 mlwydd oed. (WAQ43557)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi nifer y bobl yng Nghymru y disgwylir iddynt ymgymryd â hyfforddiant nyrsio yn ystod 2005. (WAQ43559)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi nifer y nyrsys yng Nghymru a fydd yn cwblhau eu hyfforddiant yn ystod 2005. (WAQ43560)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddisodli'r fflyd ambiwlans gyfan yng Nghymru, neu ran ohoni gyda cheir MPV fel y mae'r GIG yn Lloegr yn ei wneud? Os felly, a all roi manylion y cynlluniau hyn. (WAQ43586)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer y Cyfleuster Cymdogaeth arfaethedig ar gyfer Merthyr Tudful, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau'r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43587)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Ysbyty Cymuned newydd Caerffili, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau'r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad (WAQ43588)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd newydd Cwm Cynon, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau'r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43589)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Ysbyty Cymuned newydd Glynebwy, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau'r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43590)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Ysbyty Cymuned newydd y Rhondda, yn cynnwys dyddiadau dechrau

a chwblhau’r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43591)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Ysbyty Cymuned newydd Porthmadog, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau’r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43592)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Ysbyty Cymuned newydd Treffynnon, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau’r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43593)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori ar gyfer Ysbyty Bwthyn Dinbych-y-pysgod, yn cynnwys dyddiadau dechrau a chwblhau’r ymgynghoriad, y rhai yr ymgynghorir â hwy a natur a chwmpas yr ymgynghoriad. (WAQ43594)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Ysbyty Cymuned newydd Caerffili. (WAQ43595)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Gwasanaethau Gofal Iechyd newydd Cwm Cynon. (WAQ43596)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Ysbyty Cymuned newydd Glynebwy. (WAQ43597)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Ysbyty Cymuned newydd y Rhondda. (WAQ43598)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Ysbyty Cymuned newydd Porthmadog. (WAQ43599)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Ysbyty Cymuned newydd Treffynnon. (WAQ43600)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Ar ba ddyddiad y cymeradwywyd yr achos busnes dros adeiladu Ysbyty Bwthyn newydd Dinbych-y-pysgod. (WAQ43601)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pryd y mae’n rhagweld y caiff yr achos busnes dros adeiladu Cyfleuster Cymdogaeth newydd ym Merthyr Tudful ei gymeradwyo. (WAQ43602)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o

wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yn y Cyfleuster Cymdogaeth newydd arfaethedig ym Merthyr Tudful. (WAQ43603)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yn Ysbyty Cymuned newydd Caerffili. (WAQ43604)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yng Ngwasanaethau Gofal Iechyd newydd Cwm Cynon. (WAQ43605)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yn Ysbyty Cymuned newydd Glynebwy. (WAQ43606)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o wasanaethau a'r lefel o wasanaethau a fydd ar gael yn Ysbyty Cymuned newydd y Rhondda. (WAQ43607)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ar y math o wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yn Ysbyty Cymuned newydd Porthmadog. (WAQ43608)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yn Ysbyty Cymuned newydd Treffynnon. (WAQ43609)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o wasanaethau a lefel y gwasanaethau a fydd ar gael yn Ysbyty Bwthyn newydd Dinbych-y-pysgod. (WAQ43610)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

## *Gofyn i'r Trefnydd*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu darparu i awdurdodau lleol o ran gweithredu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. (WAQ43553)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw waith ailstrwythuro arfaethedig i'r Uned Polisi Cydraddoldeb neu waith ailstrwythuro sydd eisoes wedi'i gyflawni, yn cynnwys pa radd staffio a fu gan Bennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb

yn y gorffennol, beth yw'r radd nawr a beth fydd y radd yn y dyfodol. (WAQ43577)